Statws *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 5

Yr hawl i gael amser i ffwrdd

Talu tâl gwyliau wrth derfynu cyflogaeth

39.—(1) Pan derfynir cyflogaeth gweithiwr amaethyddol ac nad yw'r gweithiwr amaethyddol wedi cymryd yr holl hawl gwyliau blynyddol sydd wedi cronni iddo ar ddyddiad terfynu'r gyflogaeth, mae gan y gweithiwr amaethyddol hawl yn unol â pharagraff (2) i gael taliad yn lle'r gwyliau blynyddol a gronnwyd ond nas cymerwyd.

(2) Mae swm y taliad sydd i'w dalu i'r gweithiwr amaethyddol yn lle pob diwrnod o'i wyliau blynyddol a gronnwyd ond nas cymerwyd ar ddyddiad terfynu'r gyflogaeth i'w gyfrifo yn unol ag erthygl 36 fel pe bai dyddiad terfynu'r gyflogaeth yn ddiwrnod cyntaf cyfnod o wyliau blynyddol y gweithiwr amaethyddol.